**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **29 Medi 2015**

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Awdur yr Adroddiad:** **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae’r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 fel y nodwyd yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £0.380 miliwn (£0.594 miliwn yn is ddiwedd Mehefin) ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae esboniad pellach ynglŷn â’r rhesymau dros yr amrywiadau a’r risgiau a’r rhagdybiaethau sy’n sail iddynt wedi’u hamlinellu isod.

Cytunwyd ar arbedion o £7.3 miliwn fel rhan o’r gyllideb ac mae crynodeb o’r arbedion yn **Atodiad 2**. Mae £5.406 miliwn (74%) o’r arbedion eisoes wedi’u cyflawni, cynnydd o £0.113 miliwn ar hynny a adroddwyd yng Ngorffennaf. Bydd cynnydd ar y 26% sy’n weddill yn cael ei fonitro’n agos dros y misoedd nesaf, fodd bynnag mae llawer o hyder y bydd y rhan fwyaf o’r arbedion hyn hefyd yn cael eu cyflawni.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch pob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae manylion gwasanaethau arwyddocaol ar gael yn y paragraffau isod.

**Gwasanaethau Plant** - Disgwylir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn gorwario o £126,000 (£88,000 o danwariant wedi'i ragweld ar ddiwedd mis Mehefin). Fel y nodwyd mewn adroddiadau yn ystod y misoedd blaenorol, gall rhagamcanion yn y gwasanaeth hwn newid wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, oherwydd newidiadau posibl mewn lleoliadau cost uchel yn ystod y flwyddyn. Yn anffodus, mae'r newidiadau canlynol i nifer fach o achosion wedi effeithio'n andwyol ar yr alldro a ragwelir:

- Mae newid i anghenion gofal un lleoliad arbenigol (lleoliad bellach wedi'i asesu fel angen gofal 2 i 1) wedi cynyddu costau rhagamcanol o tua £76,000.
- Rhagwelir nawr y bydd y gwasanaeth yn defnyddio asiantaeth allanol i sicrhau lleoedd mabwysiadu ar gyfer dau blentyn ar gost o £76,000.

Y gobaith yw y gall y gwasanaeth leihau'r gorwariant amcanol cyfredol trwy reoli arbedion swyddi gwag ac o bosibl drwy ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau Arbenigol. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o newidiadau pellach i leoliadau costau uchel yn parhau i fod yn risg.

**Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** – Disgwylir tanwariant o £50,000 yn y gwasanaeth ar hyn o bryd (£52,000 y mis diwethaf) oherwydd gweithrediad cynnar o arbedion y gyllideb y cytunwyd arnynt.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd** – Mae risgiau o ran Cludiant Ysgol, Parcio a'r gwaith a wnaed ar ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn parhau yn 2015/16. Mae'r camau rheoli canlynol wedi'u nodi:

- **Parcio** – Mae gwell rheolaeth perfformiad o'r staff gorfodi i gynyddu incwm PCN ac adolygiad o gostau gweithredu eisoes wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd prisiau meysydd parcio'n cael eu hadolygu fel rhan o broses y gyllideb.
- **Cludiant Ysgol** – Cafwyd cyfarfod grŵp tasg a gorffen i ystyried yr opsiynau i leihau'r duedd o orwario yn y maes hwn. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno polisi Cludiant Ysgol diwygiedig (yn berthnasol o fis Medi 2015) a gobeithir y bydd yn cynorthwyo'r gwasanaeth i symud i sefyllfa o adennill costau. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n agos dros y misoedd sydd i ddod gan fod pwysau o ran demograffeg, cludiant coleg a gofynion AAA angen eu hasesu'n llawn o hyd. Ni fydd manylion y contractau sydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 15/16 yn gwbl hysbys tan fis Medi ac adroddir ar eu heffaith i'r Cabinet ym mis Hydref.

- **Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** – Mae'r gwasanaeth wedi gostwng costau er mwyn cyfyngu effaith gostyngiadau yn yr incwm ffioedd sy'n hysbys ar hyn o bryd, fodd bynnag mae risg o ostyngiadau pellach mewn incwm a lefel gwaith yn parhau.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y camau a nodwyd uchod ynghyd â rheoli costau'n ofalus o fewn y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn caniatáu i Wasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd adennill costau eleni.

**Risgiau / Rhagdybiaethau Gwasanaethau Eraill** – Er rhagwelir y bydd gwasanaethau eraill yn adennill costau mae nifer o risgiau a rhagdybiaethau fydd yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a'u hadrodd i'r Aelodau.

**Ysgolion** – Ar ddiwedd mis Awst y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £1.631 miliwn, sy'n ostyngiad o £1.907 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2014/15 (£3.538 miliwn). Mae adroddiadau monitro wedi'u cyflwyno i'r adran gyllid yn nodi'r risgiau a'r rhagdybiaethau sydd wedi hysbysu'r rhagamcanion a chrynodebau o gynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a /neu ddelio â diffygion ariannol a ragwelir. Rhagwelir y bydd y gyllideb nad yw wedi'i dirprwyo yn adennill costau ar hyn o bryd.

**Corfforaethol** – Rhagwelir o hyd y bydd tanwariant ar gyllidebau corfforaethol o £0.454 miliwn. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu dros y misoedd nesaf yn sgil y mentrau canlynol:

- Adolygiad parhaus o gyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog.
- Adolygiad o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau (gan gynnwys Darpariaethau Dyledion Drwg)

Y dybiaeth gyfredol yw y bydd tanwariant corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, fodd bynnag, bydd argymhellion yn cael eu gwneud mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol unwaith y bydd canlyniad y mentrau yn gwbl hysbys.

Ar ddechrau 2015/16 roedd cronfeydd arian parod y **Cynllun Corfforaethol** yn £17.413 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £6.538 miliwn.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £46.5 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £15.1 miliwn. Hefyd yn Atodiad 2 mae'r gwariant arfaethedig o £29.9 miliwn ar y **Cynllun Corfforaethol**. Yn **Atodiad 4** mae diweddariad ynglŷn â'r prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

Y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT).** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio y bydd cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £138,000 o'i gymharu â chynnydd yn y gyllideb o £168,000. Rhagwelir y bydd balansau CRT yn £1.911 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cyllideb Gyfalaf o £7.8 miliwn wedi'i dyrannu ar draws Atgyweirio a Chynnal a Chadw, atgyweiriadau

a gynlluniwyd (£7.2 miliwn), Gwelliannau Amgylcheddol (£0.5 miliwn) a Phrosiect TG (£150,000).

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £183.707 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 5.14%. Roedd balansau buddsoddi yn £20.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.52%.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad?**

Cynhyrchwyd asesiad o effaith manwl fel rhan o broses gosod y gyllideb a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yn ychwanegol at adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i hystyried gan CET, yr UDA, Briffio'r Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Adolygwyd cynigion penodol gan y pwyllgorau archwilio. Cynhaliwyd deg gweithdy cyllideb gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau.

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb ac mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir a rhai Cynghorau Tref. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ac mae trafodaethau penodol wedi eu cynnal gyda'r Heddlu.

Mae'r holl aelodau o staff wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r broses o osod y gyllideb ac fe ymgynghorir yn llawn â'r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor. Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â'r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.